

Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg yn Estyn 2022-2023

Mae'r unfed ar ddegfed adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys crynodeb o gynnydd a wnaed rhwng Mawrth 2022 ac Ebrill 2023 yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd yn adroddiad y llynedd.

Blaenoriaethau ar gyfer 2022-2023

- 1. Defnyddio ein Cynllun Strategol trosfwaol y Gymraeg fel y sbardun allweddol ar gyfer gwella a chynyddu ein defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol gyda'n rhanddeiliaid. Bydd ein dull yn parhau i ystyried cydymffurfio deddfwriaethol fel y waelodlin ofynnol y gallwn wella ohoni.**
- 2. Parhau â phroses o hunanasesu ac asesu cymheiriaid o fewn gwahanol dimau corfforaethol, er mwyn dadansoddi i ba raddau yr ydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a sut gallem ni wella ein perfformiad a'n gwasanaethau Cymraeg.**
- 3. Gweithredu pecyn cymorth ARFer o 2022 ymlaen, os oes modd, er mwyn defnyddio medrau Cymraeg siaradwyr rhugl a dysgwyr o fewn y sefydliad, a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach. (Gweler Atodiad 7 am ddiffiniad o brosiect ARFer).**
- 4. Mireinio ein dull o fesur cymwyseddau aelodau staff yn y Gymraeg i lywio gofynion datblygiad proffesiynol yn y dyfodol yn fwy effeithlon.**

Cyflwyniad

Rydym wedi gwneud cynnydd cadarn, lle bo'n ymarferol bosibl, o ran y blaenoriaethau uchod yn ystod y flwyddyn, a bwriad yr adroddiad hwn yw adlewyrchu ac enghreifftio'r cynnydd hwnnw.

- 1. Defnyddio ein Cynllun Strategol trosfwaol y Gymraeg fel y sbardun allweddol ar gyfer gwella a chynyddu ein defnydd o'r Gymraeg yn fewnol ac yn allanol gyda'n rhanddeiliaid. Bydd ein dull yn parhau i ystyried cydymffurfio deddfwriaethol fel y waelodlin ofynnol y gallwn wella ohoni**

Yn 2021, cyflwynom ein [Cynllun Strategol y Gymraeg 2021-2024 \(llyw.cymru\)](https://www.gov.wales/cynllun-strategol-y-gymraeg-2021-2024) cyntaf.

Rydym wedi nodi pum amcan allweddol y Gymraeg ar gyfer 2021-2024. Ar gyfer pob amcan, rydym hefyd wedi amlinellu camau gweithredu allweddol y byddwn yn eu cymryd i'w cyflawni nhw a'n meini prawf llwyddiant. Mae'r amcanion hyn, a chynnydd yn eu herbyn, yn eitemau sefydlog ar bob un o agendâu cyfarfodydd y Gweithgor Iaith Gymraeg.

Amcan 1: Byddwn yn hyrwyddo defnydd cynyddol o'r Gymraeg yn fewnol ar draws ein gweithlu cyfan trwy fentrau fel ARFer trwy Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor.

Amcan 2: Hyrwyddo cysyniad y 'cynnig rhagweithiol' yn hytrach nag ymagwedd ragweithiol at wasanaethau Cymraeg. Byddwn yn parhau â'n prosesau hunanasesu ac asesu cymheiriaid mewnol i fesur effeithiolrwydd ein trefniadau cydymffurfio presennol. Fodd bynnag, byddwn yn ceisio gwella ein safonau cyflwyno gwasanaethau yn barhaus ac yn ymdrin â chydymffurfio deddfwriaethol fel y waelodlin ofynnol y gallwn wella ohoni.

Amcan 3: Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, ei diwylliant a'i chyd-destun hanesyddol trwy weithgarwch arolygu, gan gynnwys adroddiadau arolygu ac adroddiadau thematig, yn unol â'n gweledigaeth ar gyfer addysg yng Nghymru.

Amcan 4: Hyrwyddo'r Gymraeg trwy gymryd rhan yn gyson mewn ymgynghoriadau cyhoeddus a deddfwriaethol perthnasol.

Amcan 5: Trwy ymgysylltu'n gadarnhaol ac ymrwymo i'r amcanion uchod, ein nod fydd arwain trwy esiampl, fel sefydliad sy'n hyrwyddo ac yn defnyddio hunanwerthuso gonest ac agored ac yn arddel pwysigrwydd y Gymraeg i'n gweledigaeth ddiwylliannol ac addysgol.

I sicrhau bod yr amcanion uchod yn parhau yn ganolog i'n gwaith, mae'r cynllun strategol o'r flwyddyn adrodd hon yn eitem sefydlog ar bob un o agendâu'r Gweithgor Iaith Gymraeg, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae hyn yn fuddiol wrth gynnal ffocws clir ar ein nodau corfforaethol ynglŷn â'r iaith ac yn galluogi'r grŵp i werthuso a mesur cynnydd yn barhaus.

2. Parhau â phroses o hunanasesu ac asesu cymheiriaid o fewn gwahanol dimau corfforaethol, er mwyn dadansoddi i ba raddau yr ydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a sut gallem ni wella ein perfformiad a'n gwasanaethau Cymraeg.

Mae'r broses hon yn cynnwys gofyn i aelod o'r tîm perthnasol o'r gwasanaethau canolog drafod â chydweithwyr a pharatoi dadansoddiad byr o'r ffordd y maent yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Yn ystod cyfarfod y Gweithgor Iaith Gymraeg, caiff y safonau sy'n berthnasol i'r tîm corfforaethol hwnnw eu dangos ar y sgrin ac mae'r unigolyn yn siarad amdanynt, gan esbonio sut maent yn dehongli'r safon yn eu cyd-destun nhw. Mae hyn yn arwain at gwestiynau ac awgrymiadau gan aelodau eraill y grŵp, sy'n helpu i egluro unrhyw faterion lletchwith yn ogystal â mireinio'n dealltwriaeth gyfunol o ofynion y safonau. Os bydd angen, gofynnir i gynrychiolwyr y tîm ystyried materion a godwyd, a dod yn ôl i'r cyfarfod nesaf ar ôl eu trafod â chydweithwyr yn yr un tîm. Mae'r broses hon wedi bod yn fuddiol i bawb sydd ynghlwm, ac arweiniodd at broses effeithiol o adolygu gan gymheiriaid, gan arwain at hunanwerthuso ein cydymffurfiaeth â'r safonau.

Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn gofnodi, penderfynwyd datblygu'r broses hon ymhellach a chynnwys eitem sefydlog ar bob agenda, *materion yn codi ynghylch cydymffurfio*. Mae holl safonau perthnasol y Gymraeg wedi'u cynnwys ar adroddiad Power BI sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd gan yr unigolion / y grwpiau priodol. I bob pwrpas, mae hon yn ddogfen fyw sy'n cael ei hadolygu ym mhob un o gyfarfodydd y grŵp. Trwy wneud hyn, caiff elfennau mwyaf effeithiol y broses flaenorol eu cynnal, er enghraifft yr hunanasesu ac asesu cymheiriaid a myfyrio. Yn ychwanegol, mae'n sicrhau bod ffurf barhaus o hunanwerthuso yn hytrach nag adolygiad unigol o agweddau ar ein gwaith ar adeg benodol mewn amser.

3. Gweithredu pecyn cymorth ARFer o 2022 ymlaen, os oes modd, er mwyn defnyddio medrau Cymraeg siaradwyr rhugl a dysgwyr o fewn y sefydliad, a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach. (Gweler Atodiad 7 am ddiffiniad o brosiect ARFer).

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, nodom dîm a oedd yn fodlon peilota'r cynllun. Fodd bynnag, nid oedd yr adnoddau o Ganolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor wedi'u cwblhau ac ar gael i ni weithredu'r cynllun. Yn ystod 2022-2023, ni wnaethom allu nodi un tîm penodol o fewn gwasanaethau canolog o ganlyniad i ailstrwythuro mewnol. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwmo i wneud hynny o hyd, ac mae'n parhau i fod yn nod allweddol yn ein Cynllun Strategol y Gymraeg 2021-24. Ers hynny, rydym wedi datblygu llinell amser i gyflwyno'r cynllun i bob aelod o staff yn ystod 2023-2024 gyda chymorth Canolfan Bedwyr. Byddwn yn adrodd ar hyn yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

4. Mireinio ein dull o fesur cymwyseddau aelodau staff yn y Gymraeg i lywio gofynion datblygiad proffesiynol yn y dyfodol yn fwy effeithlon.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, dosbarthom arolwg ar-lein i bob aelod o staff ei lenwi. Roedd y gyfradd ymateb yn dda iawn, a derbyniom gyfanswm o 121 o ymatebion. Mae'n galonogol fod dros hanner ein haelodau wedi mynegi diddordeb mewn dysgu Cymraeg neu wella'u medrau Cymraeg presennol.

Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau yn gofyn i staff hunanasesu eu gallu yn y Gymraeg o ran llafaredd (gwrando a siarad), darllen ac ysgrifennu. Gofynnwyd iddynt raddio eu hunain ar raddfa chwe phwynt. Roedd y raddfa a ddefnyddiwyd wedi'i seilio ar lefel a dderbynnir yn rhyngwladol y Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin ar gyfer leithoedd (CEFR) a'r lefelau a ddefnyddir gan y sector Cymraeg i Oedolion (Cyn-mynediad neu ar gyrsiau Cymraeg, Mynediad, Sylfaen, Canolraddol, Uwch, Hyfedredd) sydd hefyd wedi'i seilio ar y CEFR.

Yn ychwanegol, gofynnem i aelodau staff a oeddent yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn y gwaith, ac os felly, sut, yn ogystal ag a fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cael hyfforddiant i wella'u medrau Cymraeg.

Llafaredd

Hunanasesodd 48 aelod o staff eu hunain ar 5 neu 6 ar y raddfa (h.y. Lefelau B2 – C1/C2 ar y CEFR) ynghylch llafaredd. Mae hyn yn uwch na niferoedd y siaradwyr rhugl yn ôl ein ffigurau mewnol ac yn cynrychioli cyfanswm o 39% o 123 o gyfanswm yr aelodau staff (yn hytrach na'r 36% a nodwyd yn Atodiad 1).

Darllen

Hunanasesodd 50 aelod o staff eu hunain ar 5 neu 6 ar y raddfa.

Ysgrifennu

Hunanasesodd 46 chwech aelod o staff eu hunain ar 5 neu 6 ar y raddfa.

Yn ddiddorol, os edrychwn ni ar staff sy'n hunanasesu ar Lefel 4 – neu B1 (sydd gyfwerth â TGAU ail iaith yn fras), mae'r canlyniadau'n dangos bod 5 yn hunanasesu

ar y lefel hon ar gyfer llafaredd, 4 ar gyfer darllen a 3 ar gyfer ysgrifennu. Gellid troi'r grŵp hwn yn siaradwyr gweithredol yn eithaf cyflym.

Fodd bynnag, mae hyn hefyd yn golygu bod dros hanner ein staff ar lefelau is (islaw lefelau TGAU ail iaith, a byddai angen amser a buddsoddiad sylweddol i'w troi'n siaradwyr rhugl gweithredol.

Bydd dadansoddiad manylach o lefelau a gofynion dysgu unigolion yn cael eu gwneud yn ystod blwyddyn adrodd 2023-2024 a byddant yn ffurfio sylfaen ymagwedd fwy targedig at hyfforddiant Cymraeg nag yn y gorffennol.

Effaith hyfforddiant Cymraeg

Mae argaeledd hyfforddiant Cymraeg ar gyfer pob un o'n staff yn dangos pwysigrwydd y Gymraeg yn ein sefydliad. Rhoddir gwybod i staff newydd am y cyfleoedd ar gyfer ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg yn eu sesiwn ymsefydlu yn Gymraeg, neu pan fyddant yn gwerthuso eu hanghenion datblygiadol fel rhan o'u hadolygiadau perfformiad parhaus.

Mae nifer yr aelodau staff sy'n cymryd rhan mewn gwersi wedi gostwng yn ystod y flwyddyn adrodd (gweler Atodiad 3). Fodd bynnag, rydym yn hyderus y bydd hyfforddiant Cymraeg yn cynyddu'n sylweddol yn ystod 2023-2024 yn dilyn yr ymateb cadarnhaol iawn i'n holiadur medrau Cymraeg. Fel y nodwyd yn flaenorol, mynegodd dros hanner o'n haelodau staff ddiddordeb mewn dysgu Cymraeg neu wella'u medrau Cymraeg presennol. Bydd hyn yn ffurfio sylfaen un o'n hegwyddorion allweddol ar gyfer 2023-2024.

Cadw cofnodion

Yn unol â'r flwyddyn ariannol, rydym yn cadw cofnod o nifer y cwynion sy'n ymwneud â chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg (p'un a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau y mae gennym ni ddyletswydd i gydymffurfio â nhw ai peidio). Yn ystod 2022-2023, derbyniwyd tair cwyn am ein gwasanaethau iaith Gymraeg. Roedd hyn yn ymwneud â'r materion canlynol:

- 1 Roedd y gŵyn gyntaf ynghylch camgymeriad ar dudalen lanio a theitl dogfen yr adroddiad ar aflonyddu rhywiol sy'n addas i bobl ifanc ei ddarllen. Anfonwyd y mater ymlaen at ein tîm Cyfathrebu, ac aethpwyd i'r afael ag ef. Anfonwyd neges e-bost yn ymddiheuro at yr achwynydd ar yr un bore.
- 2 Roedd yr ail gŵyn yn gysylltiedig â phroblemau â'r wefan – roedd rhai tudalennau ar yr ochr Gymraeg wedi rhagosod i destun Saesneg. Anfonwyd y gŵyn ymlaen at y tîm Cyfathrebu, a gadarnhaodd fod hyn yn nam bach yr oedd ein dylunwyr gwefannau yn gallu ei ddatrys.
- 3 Roedd y drydedd gŵyn ynghylch diffyg cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg ar y wefan, gyda rhywfaint o destun Saesneg yn ymddangos ar y safle Cymraeg. Cydnabuwyd hyn gan y tîm Cyfathrebu ac anfonwyd y mater hwn at ddatblygwyr gwefannau i'w ddatrys.

Rydym yn monitro ansawdd ein gwasanaethau iaith Gymraeg yn agos, ac yn cadw cofnod o'r hyn rydym ni'n ei wneud i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau

llunio polisi. Rydym yn cadw cofnod (yn dilyn asesiadau o fedrau Cymraeg), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar fedrau yn y Gymraeg (gweler Atodiadau 1 a 2 isod).

Rydym yn cadw cofnod yn ogystal o nifer a chanran yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu gyrsiau ymwybyddiaeth iaith (gweler Atodiadau 3 a 4 isod).

Rydym yn cadw cofnod o nifer y swyddi gwag yr aseswyd bod medrau Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol ar eu cyfer.

Yn ystod 2022-2023, ymunodd 24 aelod newydd o staff parhaol ag Estyn mewn gwahanol swyddi (7 aelod o staff arolygu ac 17 mewn Gwasanaethau Canolog). Yn ychwanegol, ymunodd 1 Arolygydd Ychwanegol ar secondiad.

Cynhaliwyd deg ymgyrch recriwtio yn ystod 2022-2023

- Swyddogion Gweinyddol (swyddi generig) – medrau Cymraeg yn ddymunol – roedd 1 o 7 penodai yn siarad Cymraeg
- Swyddog Gweinyddol – (swydd TG) – medrau Cymraeg yn ddymunol – ni phenodwyd unrhyw siaradwyr Cymraeg
- Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cyfarwyddwr Rhaglen Strategol – medrau Cymraeg yn ddymunol – 1 penodai yn siarad Cymraeg
- Arolygydd Ychwanegol (swydd secondiad) – medrau Cymraeg yn ddymunol – 1 penodai yn siarad Cymraeg
- Cynorthwydd Gweithredol (Ysgrifenyddiaeth) – y Gymraeg yn hanfodol – 1 penodai yn siarad Cymraeg
- Swyddog Gweithredol (Cyllid) – y Gymraeg yn ddymunol – dim siaradwr Cymraeg wedi'i benodi
- Swyddog Gweithredol (Cyfathrebu a Digwyddiadau) – medrau Cymraeg yn ddymunol – dim siaradwr Cymraeg wedi'i benodi
- Swyddog Gweithredol Uwch (Ystadegau) – y Gymraeg yn ddymunol – dim siaradwr Cymraeg wedi'i benodi
- Arolygwyr Ei Fawrhydi – medrau Cymraeg yn ddymunol – 5 o 7 penodai yn siarad Cymraeg
- Cyfarwyddwyr Anweithredol – medrau Cymraeg yn ddymunol – 1 o 4 penodai yn siarad Cymraeg

Blaenoriaethau ar gyfer 2023-2024

- 1. Defnyddio llais staff mewn modd cynhwysol a rhagweithiol wrth ddatblygu ein gwasanaethau a'n harlwy Cymraeg yn fewnol ac yn allanol, fel ei gilydd.**
- 2. Parhau i fireinio ein hymagwedd at fesur cymwyseddau aelodau staff yn y Gymraeg i lywio gofynion datblygiad proffesiynol yn y dyfodol yn fwy effeithlon.**
- 3. Datblygu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr sy'n cyd-fynd yn dda ag anghenion ieithyddol a phroffesiynol unigolion a'r sefydliad.**
 - i) Cynyddu'r niferoedd sy'n dysgu neu'n gwella'u medrau Cymru, beth bynnag yw eu manau cychwyn, o'r ganran bresennol, sef 3% i 10% o'r gweithlu.
 - ii) Cynorthwyo 5% o staff i fynyachu cyrsiau trochi dwys yn y Gymraeg i gyflymu eu cynnydd a'u defnydd o'r iaith.
- 4. Gweithredu pecyn cymorth ARFer o 2023 ymlaen, trwy ei gynnig i'r holl gyflogeion ar draws y sefydliad, er mwyn defnyddio medrau Cymraeg siaradwyr rhugl a dysgwyr o fewn y sefydliad, a normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg ymhellach. (Gweler Atodiad 7 am ddiffiniad o brosiect ARFer).**
 - i) Cefnogi 10% o'r gweithlu i gymryd rhan yn y cynllun peilot arfaethedig yn ystod tymor yr hydref 2023
 - ii) Gweithio gyda sectorau arolygu i gynyddu nifer y siaradwyr newydd neu'r rhai sy'n ddihyder sy'n gallu cymryd rhan mewn arolygiadau cyfrwng Cymraeg
 - iii) Hwyluso tri digwyddiad ar gyfer siaradwyr newydd yn ystod y flwyddyn academaidd sy'n cynorthwyo'u cynnydd ac yn eu helpu i gymathu â rhwydweithiau Cymraeg
- 5. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gyda'r rhai rydym ni'n gweithio gyda nhw, e.e. darparwyr rydym yn eu harolygu, ein hadborth i ymgynghoriadau cyhoeddus ac wrth gontractio ag asiantaethau trydydd parti.**

Atodiadau


Atodiad 1: Nifer a chanran y staff yng ngwasanaethau'r sefydliad sy'n medru'r Gymraeg ar 31 Mawrth 2023 (cyfwerth ag amser llawn)

- Fesul adran
- Yn ôl gradd y swydd

Staff	Nifer y staff ar 31/03/2023	Nifer y siaradwyr Cymraeg ar 31/03/2023	Canran
PAEF	1	1	100%
Cyfarwyddwyr Strategol	2	1	50%
Staff arolygu			
Cyfarwyddwyr Cynorthwyol	6	4	67%
AEF	61	23	38%
Arolygwyr Ychwanegol (secondiadau)	1	1	100%
Cyfanswm y staff arolygu	70	30	43%
Staff Gwasanaethau Canolog			
Cyfarwyddwr Cynorthwyol	2	2	100%
Gradd 7	4	2	50%
Uwch Swyddogion Gweithredol	5	0	0%
Swyddogion Gweithredol Uwch	4	1	25%
Swyddogion Gweithredol	25	8	32%
Swyddogion Gweinyddol	14	2	14.5%
Cyfanswm staff Gwasanaethau Canolog	54	15	28%
Cyfanswm staff Estyn	124	45	36% (34% yn 21- 22 a 37% yn 20/21)

Atodiad 2: Staff arolygu sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o'r holl staff arolygu (cyfwerth ag amser llawn)

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2019	31 Mawrth 2020	31 Mawrth 2021	31 Mawrth 2022	31 Mawrth 2023
Staff arolygu sy'n gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg	22	25	25	25	26	29	30
Cyfanswm y staff arolygu	64	60	64	65	64	72	70
Canran	34%	42%	39%	38%	41%	40%	43%



Atodiad 3: Hyfforddiant iaith Gymraeg 2022-23

Math	Nifer y staff	Darparwr	Lleoliad	Diwrnodau
Cyrsiau mewnol a gyflwynwyd ar-lein				
Uwch 1	3	Dysgu Cymraeg Morgannwg	Rhithwir	25
Cyrsiau allanol				
Canolradd	1	Dysgu Cymraeg Caerdydd	Rhithwir	17.5
Uwch 2	1	Dysgu Cymraeg Morgannwg	Rhithwir	7

Cyfanswm: 4 aelod o staff a 49.5 diwrnod (7 aelod o staff a 71 diwrnod yn 2021-2022)

Atodiad 4: Nifer y staff a dderbyniodd hyfforddiant sefydlu iaith Gymraeg a hyfforddiant penodol trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r holl staff, gan gynnwys staff dros dro neu staff asiantaeth, yn derbyn hyfforddiant sefydlu ymwybyddiaeth iaith Gymraeg fel rhan o'u rhaglen sefydlu gan yr AEF sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg. Caiff hyn ei amserlennu gan yr adran adnoddau dynol fel rhan o raglen sefydlu staff newydd. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth fras am hanes yr iaith a'i lle yn hanes Cymru, dealltwriaeth o ofynion Safonau'r Gymraeg a dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Yn ystod 2022-2023, ymunodd 24 aelod newydd o staff parhaol ag Estyn mewn gwahanol swyddi (7 aelod o staff arolygu ac 17 mewn Gwasanaethau Canolog). Yn ychwanegol, ymunodd 1 Arolygydd Ychwanegol ar secondiad.

Cafodd 10 aelod newydd o staff (un secondai a naw aelod o staff Gwasanaethau Canolog) yr hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyflogwyd wyth aelod o staff asiantaeth, a chawsant hyfforddiant (0 trwy gyfrwng y Gymraeg).

Atodiad 5: Dadansoddi sut mae hyfforddiant allanol/ymgysylltu â rhanddeiliaid yn bodloni gofynion iaith Gymraeg cynrychiolwyr

Eleni, cynhaliom 52 o ddigwyddiadau i gyd; 41 ar-lein, ac 11 wyneb yn wyneb. Ar-lein, defnyddiom Zoom a Teams i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd pan oedd angen, a Microsoft Teams i gynnal sesiynau mewn un iaith. Wyneb yn wyneb, fe wnaethom naill ai gynnal sesiynau mewn un iaith neu ddefnyddio cyfieithu ar y pryd, e.e. yn ein digwyddiad i Lansio'r Adroddiad Blynyddol. Yn ychwanegol, fe wnaeth y Tîm Digwyddiadau beilota'r defnydd o gyfieithu ar y pryd dwy ffordd, h.y. o'r Saesneg i'r Gymraeg, yn ogystal ag o'r Gymraeg i'r Saesneg, sef y ffordd arferol.


Atebodd 422 o gynrychiolwyr ein cwestiwn ynghylch p'un a oeddem yn diwallu eu hanghenion iaith. Dywedodd 420 (99%) o'r rhain ein bod yn gwneud hynny. Dim ond dau o bobl (0.5%) a atebodd 'na' i'r cwestiwn hwn. Fodd bynnag, ni roesant unrhyw

gyd-destun pellach i'w hateb. At ei gilydd, mae hyn yn debyg i'r ffigurau ar gyfer y llynedd, sy'n dangos ein bod yn cynnal ein safon uchel o ddarpariaeth Gymraeg.

Ffrydiau byw

Eleni, dechreuom gynnal sesiynau holi ac ateb wedi'u ffrydio'n fyw ar-lein, trwy ein cyfryngau cymdeithasol a thudalen we deilwredig. Ar ôl y sesiwn gyntaf o'r rhain, cyfarfûm â'r tîm cydymffurfio yn swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol. Ar gyfer gweddill y ffrydiau byw, darparom gyfieithiadau o'r Gymraeg i'r Saesneg hefyd.


Er bod y cyfieithu ar y pryd ar y diwrnod yn gweithio'n dda, cawsom ychydig o broblemau â lefelau sain yn un o'r ffrydiau. Gall hefyd gymryd amser hir i gynhyrchu'r fersiynau o'r fideo ag is-deitlau llawn ym mhob iaith ar ôl y digwyddiad. Rydym yn parhau i ystyried ein hopsiynau i wella'n gwasanaeth ymhellach.




Atodiad 6: Ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Estyn yn cyfathrebu'n ddwyieithog ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r siartiau isod yn dangos y ganran sy'n gweld negeseuon yn Saesneg (EstynHMI) ac yn Gymraeg (EstynAEF).

Yn ystod 2021-2022, gostyngodd nifer yr argraffiadau Cymraeg ar Twitter o 15% o gyfanswm yr argraffiadau i 8.65%. Hon yw'r lefel isaf er 2019-2020 (9.73%). (Mae'r argraffiadau yn cynrychioli safbwyntiau ar ffrwd Twitter.)




Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n mynd ati i ymgysylltu â ni (hoffi, sylwadau, rhannu) yn Gymraeg ar Twitter yn is, sef 6.71%.



Facebook yw'r cyfrwng cymdeithasol mwyaf poblogaidd a ddefnyddir gan siaradwyr Cymraeg o hyd. Cynyddodd y cyrhaeddiad Cymraeg ar Facebook o 29% i 31.93%. Mae hyn yn dychwelyd i bron yr un lefel ag yn 2019-2020, sef 32.77%

(Mae cyrhaeddiad Facebook yn cynrychioli nifer y troeon yr edrychwyd ar dudalen Facebook Estyn).



Atodiad 7: Diffiniad o brosiect ARFer

Mae Prifysgol Bangor wedi sefydlu prosiect ARFer sy'n anelu at sicrhau dealltwriaeth well o ddefnydd iaith ymhlith cydweithwyr er mwyn cyflwyno ymyriadau a chymorth teilwredig i annog defnydd o'r Gymraeg mewn gweithle dwyieithog.

ARFer

Mae rhaglen ARFer yn fethodoleg a ysbrydolwyd gan brosiect Aldahitz wedi'i ddylunio gan Soziolinguistika Klusterra yng Ngwlad y Basg. Mae'r prosiect wedi'i seilio ar ddwy egwyddor sydd wedi'u gwreiddio yn y gwyddorau ymddygiadol, sef: ymrwymo i ymddwyn mewn ffordd benodol; elwa ar y dylanwad sylweddol y gall diffygion ei gael ar ymddygiad pobl.

Yn ei hanfod, mae ARFer yn rhaglen sy'n gofyn i unigolion ymrwymo i ddefnyddio'r Gymraeg fel yr iaith arferol gyda'r nod o sefydlu'r Gymraeg fel y norm.

Mae'r ffactorau canlynol yn allweddol i lwyddiant y cynllun:

- buddsoddi mewn rhaglen sy'n cefnogi dymuniad staff i ddefnyddio'r Gymraeg
- pwysigrwydd creu cyd-destun sy'n galluogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg
- pwysigrwydd cynorthwyo siaradwyr Cymraeg (yn ogystal â dysgwyr) i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith
- pwysigrwydd deall patrymau defnydd iaith cyn gwneud unrhyw gynnig i ddylanwadu arnynt
 - Fersiwn Gymraeg: <https://youtu.be/RunMxkOow-o>
 - Fersiwn Saesneg: <https://youtu.be/-xvHnld2MgA>